# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 30 Mawrth 2020 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30 Mawrth 2020 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 6 Ebrill 2020 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dafydd  Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles

**PWNC** Ffioedd Safonol Gwasanaethau Gofal a Chefnogaeth Oedolion

**PENDERFYNIAD –**

Yn unol â'r Tabl Ffioedd isod, cymeradwyo'r newidiadau i'r ffioedd safonol sy'n daladwy gan y bobl sy'n derbyn gwasanaethau Preswyl/ Nyrsio a Dibreswyl o'r 6/04/2020.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
**CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**
**Adroddiad Swyddog**

PWNC: Ffioedd Safonol Gwasanaethau Gofal a Chefnogaeth Oedolion

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet : | Dafydd Meurig Aelod Cabinet<br>Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Lles |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Rhion Glyn<br>Uwch Reolwr Busnes (Dros-dro) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 30.03.2020 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : | |

ARGYMHELLLIAD

Yn unol â'r Tabl Ffioedd isod, cymeradwyo'r newidiadau i'r ffioedd safonol sy'n daladwy gan y bobl sy'n derbyn gwasanaethau Preswyl/ Nyrsio a Dibreswyl o'r 6/04/2020.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

**Cefndir**
Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol mae'n ofynnol i bob Prif Swyddog gynnal adolygiad o'r holl ffioedd a godir gan eu gwasanaeth yn unol â Pholisi Ffioedd a Phrisiau'r Cyngor. Dylai pob Prif Swyddog gyflwyno argymhellion i newid lefel ffioedd, neu argymell i beidio newid taliadau o'r fath yn unol â chwyddiant yn flynyddol.

O dan adran 59 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhoddir yr hawl i awdurdod lleol godi tâl am wasanaethau gofal a chefnogaeth. Nodir yn y darpariaethau bod yn rhaid i awdurdodau lleol:

• *sicrhau **na** chodir ffi ar bobl sy'n fwy nag sy'n rhesymol ymarferol iddynt ei thalu a **rhaid peidio** â chodi ffi sy'n fwy na'r gost i'r awdurdod mewn perthynas â darparu neu drefnu'r gofal a chymorth y maent yn ei gael neu y maent yn ei drefnu eu hunain drwy daliadau uniongyrchol*

Ar yr 17 Ionawr 2017 cafodd 'Polisi Codi Tâl Gwasanaethau Gofal a Chefnogaeth Oedolion' Cyngor Gwynedd ei gymeradwyo gan y Cabinet. Mae'r polisi yn cadarnhau bod y Cyngor am godi ffi am wasanaethau gofal preswyl/ nyrsio a dibreswyl, ac yna

yn manylu ar sut y bydd y Cyngor yn gwneud hyn.

Er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r Cyngor yn sicrhau **na** chodir ffi ar bobl sy'n fwy nag sy'n rhesymol ymarferol iddynt ei dalu trwy ymestyn y cynnig i bob un gwblhau asesiad modd ariannol. Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad modd bydd cyfraniad y person tuag at gost eu gwasanaeth yn cael ei bennu. Mae pob asesiad modd yn cael ei gynnal yn unol ag adran 63 o'r Ddeddf a'r Rheoliadau Gofal a Chymorth Gosod Ffioedd (Cymru 2015).

Mae cost uned y gwasanaeth a ddarperir yn gallu amrywio llawer. Mae gan y Cyngor drefniadau comisiynu gwahanol ar gyfer pob math o wasanaethau. Mae eglurhad bras o'r trefniadau gwahanol yn dilyn, ond dylid nodi mai penderfyniadau masnachol sy'n gyrru'r prisiau sy'n cael eu talu am wasanaethau a gomisiynir yn y sector annibynnol. Yn yr un modd gwir gostau cynnal y gwasanaethau mewnol sy'n arwain at y ffioedd a godir am wasanaethau mewnol.

Er mwyn gosod y ffi sy'n daladwy gan y person sy'n derbyn y gwasanaeth mae'r gost uned sy'n cael ei dalu i'r darparwyr yn cael ei drosglwyddo heb ostyngiad. Mae hon yn egwyddor bwysig sy'n cael ei defnyddio gyda phob math o wasanaeth pan fo hyn yn drefn ymarferol i'w dilyn. Trwy wneud hyn, mae'r Cyngor yn sicrhau cydymffurfiad gyda gofynion y ddeddf bod y bobl sydd yn berchen ar y modd ariannol i dalu'n llawn am eu gwasanaethau yn gwneud hyn yn llawn hyd at y terfynau statudol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bobl sydd angen cymorth i dalu am eu gwasanaethau yn derbyn cymorth yn seiliedig ar ganlyniad eu hasesiad modd ariannol. Fel arfer mi fydd hyn yn golygu bod person yn talu'r ffi lawn (cost uned) hyd nes taro uchafswm wythnosol a bennir yn seiliedig ar eu hasesiad modd ariannol. Mae'r Cyngor wedyn yn yr achosion hyn yn talu gweddill y gost wythnosol.

## Eglurhad/ Rhesymau am y Ffioedd Newydd

### Ffioedd Gwasanaethau Preswyl- Cartrefi Cyngor Gwynedd

Mae'r ffi safonol sy'n cael ei gynnig ar gyfer Cartrefi Cyngor Gwynedd yn adlewyrchiad uniongyrchol o gyfanswm y gost i'r Cyngor o ddarparu'r gwasanaeth. Dros y blynyddoedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi rhoi buddsoddiad ychwanegol yn y cartrefi preswyl. Mae'r buddsoddiad yma mewn ymateb i'r angen i gynyddu'r lefelau staffio ac i ymestyn darpariaeth gofal dwys (EMI) yn nifer o'r cartrefi ar draws y Sir. Yn y cyfnod yma hefyd mae costau cyflogaeth wedi cynyddu.

Mae gwir gost wythnosol y ddarpariaeth wedi codi o £690.97 yn 2019/20 i £733.67 yn 2020/21. Sail y cynnydd yn y gost ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yw'r byddsoddiad pellach sydd wedi ei wneud o ran darpariaeth gofal dwys, a'r cynnydd sydd i gostau cyflogaeth. Wrth gwrs, dim ond y rhai fydd â'r modd ariannol i dalu'r swm llawn fydd yn gwneud hynny - bydd y rhan fwyaf o bobl yn talu swm llai yn unol ag asesiad o'u sefyllfa ariannol.

Fel cefndir, bu cynnydd i'r ffi yma yn y flwyddyn 2018/19 o £581.28 i £622.37, ac yna i £690.97 yn 2019/20. Cyn hynny ni fu newid o gwbl i'r ffi yn y bum mlynedd

flaenorol, bu'n sefydlog ar £581.28 ers y flwyddyn 2011.

**<u>Ffioedd Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio- Cartrefi yn y Sector Annibynnol</u>**

Mae'r cynnydd yn y ffioedd ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth yn adlewyrchu'r cynnydd sydd wedi ei gytuno i'r ffioedd sy'n cael ei dalu i'r darparwyr gofal yn y sector annibynnol.

Mae'r ffioedd safonol sy'n cael ei dalu i'r darparwyr yn y sector annibynnol wedi cael ei osod trwy ddilyn methodoleg sydd wedi cael ei gytuno rhwng y darparwyr a'r Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru. Ar sail y fethodoleg ranbarthol, ac addasiadau lleol i elfennau penodol ohono, cyflwynwyd ym mis Rhagfyr fersiwn arfaethedig o ffioedd safonol 2020/21 i ddarparwyr Gwynedd. Gosodwyd cyfnod penodol er mwyn ymgynghori ar y ffioedd safonol arfaethedig gyda'r darparwyr a gellir sicrhau fod y sylwadau sydd wedi eu derbyn fel rhan o'r ymgynghoriad wedi derbyn ystyriaeth lawn cyn gosod y ffioedd. Ond ar yr un pryd dylid amlygu'r ffaith ein bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi profi fod mwy a mwy o ddarparwyr annibynnol y Sir yn gwrthod y ffioedd safonol gan fynegi nad yw'r ffioedd safonol erbyn hyn yn adlewyrchu'r gwir gost o ddarparu'r gofal. Golygai hyn fod gennym nifer o ddarparwyr ar draws y Sir yn gosod ffioedd amgen uwch. Gyda phrinder cyflenwad yn wyneb galw uchel rydym yn gynyddol yn gorfod comisiynu mwy o leoliadau ar ffioedd uwch, sy'n golygu ein bod yn gorfod trosglwyddo'r ffioedd uwch yma i'r bobl sy'n derbyn y gofal pan fo'r asesiad ariannol yn cadarnhau eu bod yn gallu fforddio talu'n llawn am eu gofal.

Mae amgylchiadau rheolaidd eraill hefyd yn bodoli ble mae ffioedd gwahanol i'r rhai safonol yn cael eu talu. Gall hyn fod oherwydd e.e. Bod anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn fwy dwys neu fod y lleoliad yn un all sirol. Ym mhob achos fel hyn mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn gyfrifol am dalu'r gost lawn am eu gofal preswyl/ nyrsio. Bydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael cynnig asesiad modd ariannol i bennu eu cyfraniad yn unol â pholisi codi tâl y Cyngor.

Mae rhestr lawn o'r ffioedd safonol newydd sydd wedi cael eu gosod yn y tabl isod ar ddiwedd y taflen benderfyniad. Er mwyn gallu sicrhau bod y bobl sydd gan y modd i dalu'n llawn am eu gwasanaethau yn talu'n llawn bydd angen cymeradwyo bod y ffi sy'n cael ei dalu gan y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth yn cael ei osod ar yr un lefel.

**<u>Ffioedd Gwasanaethau Dibreswyl</u>**

*<u>Uchafswm Tâl Wythnosol</u>*

Dylid nodi fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r caniatâd i Awdurdodau Lleol gynyddu'r uchafswm tâl wythnosol am wasanaethau dibreswyl o £90 i £100 yr wythnos o'r 6/04/2020. Yn unol â pholisi codi tâl Cyngor Gwynedd mi fydd yr uchafswm tâl wythnosol yng Ngwynedd yn dilyn yr argymhelliad gan Lywodraeth Cymru ac yn codi i £100 yr wythnos 6/04/2020.

*Gofal Cartref/ Gofal Cartref Oriau Nos/ Llety gyda Chymorth:*

Mae yna ystod o ffioedd wrth yr awr wahanol yn cael eu talu i ddarparwyr yn y sector annibynnol sy'n seiliedig ar broses tendro rhanbarthol Gogledd Cymru. Nid yw'n ymarferol i'r Cyngor godi ffi ar y person sy'n derbyn y gwasanaeth yn seiliedig ar ba ddarparwr sy'n darparu eu gofal. O ganlyniad mae un ffi safonol wrth yr awr yn cael ei osod ar draws Gwynedd. Mae'r ffi yn cael ei osod ar sail y ffi sy'n cael ei dalu i'r darparwr rhataf gydag ychwanegiad o 5% i dalu am gostau cysylltiedig â darparu'r gofal.

O'r 6/04/2020 mi fydd y ffi safonol yn cynyddu o £17.56 yr awr i £18.40 yr awr.

Bydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael cynnig asesiad modd ariannol i bennu eu cyfraniad yn unol â pholisi codi tâl y Cyngor.

*Taliadau Uniongyrchol*

Mae'r raddfa wrth yr awr sy'n cael ei dalu fel Taliad Uniongyrchol yn cael ei godi o £12.62 i £13.24 yr awr yn unol â chwyddiant. Mae cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth at gost eu gofal hefyd yn cael ei godi i £13.24 yr awr i adlewyrchu'r cynnydd hwn. Bydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael cynnig asesiad modd ariannol i bennu eu cyfraniad yn unol â pholisi codi tâl y Cyngor.

*Teleofal*

Mae'r ffi wythnosol am becyn sylfaenol Teleofal wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o £3.30 i £4.50. Cynyddwyd y ffi wythnosol er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar sail cost niwtral. Adolygwyd costau rhedeg y gwasanaeth yn ddiweddar a gellir cadarnhau fod angen ychwanegu chwyddiant i'r swm wythnosol er mwyn parhau i gynnal y gwasanaeth ar sail cost niwtral. Cynigir felly fod y ffi wythnosol yn codi yn unol â chwyddiant o £4.50 i £4.60.

*Cynllun Cysylltu Bywydau*

Y ffioedd yn 2019/20 oedd:

- Band 1- £300 yr wythnos
- Band 2- £390 yr wythnos
- Band 3- £480 yr wythnos

Dyma yn ogystal yw'r ffi sy'n cael ei godi ar y bobl sydd yn derbyn gwasanaeth trwy'r Cynllun.

Yn dilyn adolygiad yng nghyd-destun chwyddiant mae'r ffioedd canlynol yn daladwy i'r darparwyr o'r 6/04/2020.

- Band 1- £306 yr wythnos
- Band 2- £398 yr wythnos
- Band 3- £490 yr wythnos

Er cysondeb fe argymhellir bod yr un cynnydd yn cael ei wneud i'r ffioedd sy'n daladwy gan y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth.

Bydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael cynnig prawf asesiad modd ariannol i bennu eu cyfraniad yn unol â pholisi codi tâl y Cyngor.

*Lluniaeth Mewn Gofal Dydd*

Oherwydd chwyddiant yng nghostau bwyd argymhellir fod y ffi am luniaeth mewn gofal dydd yn cynyddu o £4.50 i £4.60 y dydd.

Mae'r ffi am luniaeth mewn gofal dydd yn cael ei drin fel 'Ffi Unffurf' ac o ganlyniad does gan y person sydd yn dewis derbyn lluniaeth mewn gofal dydd ddim hawl i ofyn am asesiad o'i modd ariannol cyn talu. Mae hyn yn golygu bod pawb sy'n dewis derbyn lluniaeth mewn gofal dydd yn talu.

Asesiad Ardrawiad

Mae asesiad Cydraddoldeb wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r penderfyniad hwn, gweler 'Atodiad A'. Mae canlyniad yr asesiad wedi ei gymryd i ystyriaeth fel rhan o gloriannu'r penderfyniad. Cafodd ei adnabod bod y penderfyniad yn cael effaith ar bobl hŷn a phobl sydd gan anableddau. Fodd bynnag, mae pob defnyddiwr gwasanaeth yn parhau i dderbyn asesiad o'i modd ariannol cyn gorfod talu. Mae hyn yn golygu na fydd dim un defnyddiwr gwasanaeth yn talu dim mwy na'r hyn y maent yn gallu ei fforddio. Pwrpas y penderfyniad i gynyddu'r ffioedd safonol am y gwasanaethau yw adlewyrchu'r cynnydd chwyddiant sydd yn digwydd yng ngwir gost prynu'r ddarpariaeth. Does dim newid i gyfansoddiad nac egwyddorion y polisi codi tâl yn cael eu cynnig.

Gellir cyfeirio hefyd at ein dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r penderfyniad yma yn cynnig datrysiad sydd yn gynaliadwy ac

wedi ei ddatblygu mewn modd sydd yn gyd fynd a'r gofynion yma.

Dylid nodi bod Deddf 2014 hefyd yn nodi nad yw'r costau a osodir mewn perthynas â'r Gwasanaethau perthnasol i fod yn uwch na gwir gost o drefnu/darparu'r gwasanaeth. Gallwn gadarnhau mai dyma'r sefyllfa.

Penderfyniad

Cymeradwyo'r ffioedd a restrir yn y tablau isod fel y ffioedd sy'n daladwy gan y bobl sy'n derbyn y gwasanaethau hyn (yn ddarostyngedig i asesiad modd ariannol lle'n briodol) ar gyfer 2020/21, i gychwyn ar yr 6 Ebrill,2020.

| **Tabl Ffioedd Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio – *Residential & Nursing Care Fees Table*** | | |
|---|---|---|
| | **2019/20** | **2020/21** |
| **Ffi Safonol Cartrefi Preswyl Cyngor Gwynedd**<br>*Standard Fee Gwynedd Council Care Homes* | £690.97 yr wythnos/ per week | £733.67 yr wythnos/ per week |
| | | |
| **Cartrefi Gofal Preifat ac Anibynnol/ *Private and Independent Sector Care Homes*** | | |
| **Categori gofal/ *Category of Care*** | **2019/20** | **2020/21** |
| Preswyl (yn cynnwys dibyniaeth uchel)<br>*Residential (including high dependency)* | £544.16 yr wythnos/ *per week* | £566.30 yr wythnos/ *per week* |
| Preswyl – dementia/EMI<br>*Residential – dementia/EMI* | £605.74 yr wythnos/ *per week* | £629.33 yr wythnos/ *per week* |
| Nyrsio<br>*Nursing* | £628.46* yr wythnos/ *per week* | £660.79* yr wythnos/ *per week* |
| Nyrsio – dementia/EMI<br>*Nursing – dementia/EMI* | £662.53* yr wythnos/ *per week* | £697.07* yr wythnos/ *per week* |
| * Ddim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd tuag at y ffi, ond am y tro cyntaf eleni yn cynnwys cynnyddu yn yr elfen gofal nyrsio o £7.27 yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys. | | |

| **Tabl Ffioedd Gwasanaethau Dibreswyl- *Non Residential Fees Table*** | | |
|---|---|---|
| **Math o Wasanaeth/ *Type of Service*** | **2018/19** | **2019/20** |
| Gofal Cartref/ *Home Care* | **£17.56** yr awr/*per hour* | **£18.40** yr awr/*per hour* |
| Gofal Cartref- Oriau Nos/ *Home Care- Night Time Hours* | **£17.56** yr awr/*per hour* | **£18.40** yr awr/*per hour* |
| Llety gyda Chymorth/ *Assisted Living Accommodation* | **£17.56** yr awr/*per hour* | **£18.40** yr awr/*per hour* |
| Taliadau Uniongyrchol/ *Direct Payments* | **£12.62** yr awr/*per hour* | **£13.24** yr awr/*per hour* |
| Teleofal Pecyn Sylfaenol/ *Telecare Basic Package* | **£4.50** yr wythnos/ *per week* | **£4.60** yr wythnos/ *per week* |
| Cynllun Cysylltu Bywydau/*Shared Lives Scheme* | | |
| Band 1/ *Band 1* | **£300.00** yr wythnos/ *per week* | **£306.00** yr wythnos/ *per week* |
| Band 2/ *Band 2* | **£390.00** yr wythnos/ *per week* | **£398.00** yr wythnos/ *per week* |
| Band 3/ *Band 3* | **£480.00** yr wythnos/ *per week* | **£490.00** yr wythnos/ *per week* |
| Lluniaeth mewn Gofal Dydd/ *Food and Refreshment at Day Care Centres* | **£4.50** y dydd/*per day* | **£4.60** y dydd/*per day* |

| **Manylion Ariannol Eraill/ *Other financial Details*** | | |
|---|---|---|
| | **2019/20** | **2020/21** |
| **Terfyn Cyfalaf/ *Capital Limit*** | | |
| Gofal Preswyl a Nyrsio/ *Residential and Nursing* | £50,000.00 | £50,000.00 |
| Gofal Dibreswyl/ *Non-Residential Care* | £24,000.00 | £24,000.00 |
| **Isafswm Incwm Preswyl a Nyrsio/ *Residential & Nursing Minimum Income Amount*** | £28.50 | £32.00 |
| **Diystyriaeth Credyd Cynilion/ *Savings Credit Disregard*** | £5.75 yr wythnos sengl/ *per week single* £8.60 yr wythnos cwpl/ *per week couple* | £5.75 yr wythnos sengl/ *per week single* £8.60 yr wythnos cwpl/ *per week couple* |
| **Uchafswm Ffi Wythnosol- Gwasanaethau Dibreswyl/ *Maximum Weekly Charge- Non-Residential Services*** | £90.00 yr wythnos/*per week* | £100.00 yr wythnos/*per week* |
| | | |
| **Taliadau Gohiriedig/ *Deferred Charges*** | | |
| | **2018/19** | **2019/20** |
| Cyfradd Llog (newidiol)/ *Interest Rate (variable)* | 0.15% uwchlaw i gyfradd 'giltiau'r farchnad'/ *above the 'market gilts' rate* | 0.15% uwchlaw i gyfradd 'giltiau'r farchnad'/ *above the 'market gilts' rate* |
| Ffioedd Cyfreithiol/ *Legal Fees* | £175.00 | £175.00 |
| ➢ Ffi Archwiliad Teitl Cofrestrfa Dir/ *Land Registry Title Search Fee* | £3.00 | £3.00 |
| ➢ Ffi Cais Arwystl Cofrestr Tir/ *Land Registry Charge Application Fee* | £20.00 (Dros y We/ *Online)* Neu/ *Or* £40.00 (Post/ *Post)* | £20.00 (Dros y We/ *Online)* Neu/ *Or* £40.00 (Post/ *Post)* |
| Ffi Prisiad Eiddo/ *Property Valuation Fees* | £150.00 | £150.00 |
| Ffi Weinyddol/ *Administrative charge* | £51.00 | £51.00 |

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Bydd dewis peidio trosglwyddo gwir gost y gwasanaethau hyn ymlaen i'r bobl sydd wedi cael eu hasesu i fod yn berchen ar y modd ariannol i dalu'n llawn yn golygu bod y Cyngor yn colli arian a allai gael ei gasglu. Mae hyn wedyn yn creu bwlch ariannol mwy yng nghyllidebau'r Adran Oedolion.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

1. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

Dim sylwadau i'w hychwqaneegu o safbwynt priodoldeb.

2. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

Mae'r daflen yn egluro fod Deddf 2014 yn caniatáu i'r awdurdod lleol godi tâl ar berson am ddarparu neu drefnu gofal a chymorth, ond na all y tâl yma fod yn uwch na'r gost i'r awdurdod lleol o gwrdd â'r angen. Mae'r daflen yn gosod allan – fesul y math o ofal preswyl / dibreswyl – y berthynas rhwng y ffioedd newydd a argymhellir a'r hyn fydd yn cael ei dalu i ddarparwyr yn 2020/21.

Rwyf yn fodlon fod y pecyn yn ei gyfanrwydd ar gyfer 2020/21 yn debygol o gynhyrchu incwm digonol i gwrdd â gofynion incwm y gwasanaethau perthnasol, wedi ychwanegu chwyddiant ac ar ôl ystyried y cynnydd yn y costau oherwydd mwy o alw am ofal dwys. Felly, rwy'n cefnogi penderfyniad yr Aelod Cabinet i gymeradwyo'r ffioedd a phrisiau ar gyfer gofal preswyl a dibreswyl.

BARN YR AELOD LLEOL

Dim yn fater lleol

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

## 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

- Budd- ddeiliaid
- Cynghorau ar draws Gogledd Cymru
- Defnyddwyr Gwasanaeth gan gynnwys Darpar Ddefnyddwyr
- Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth
- Gofalwyr
- Aelodau Etholedig

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

5 Mawrth 2020

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

20 Mawrth 2020

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi'r dewis i Gyngor Gwynedd i ymarfer disgresiwn wrth godi tâl am wasanaethau gofal sydd yn cael ei ddarparu. Ar yr 17/01/2017 cafodd polisi codi tâl diwygiedig ar gyfer codi tâl am wasanaethau gofal preswyl a dibreswyl ei gymeradwyo gan Gabinet Cyngor Gwynedd.

Does dim newid i'r polisi codi tâl yn cael ei gynnig yn Daflen Penderfyniad yr Aelod Cabinet. Yn y daflen mae'r Aelod Cabinet yn gweithredu ar ei ddyletswydd i adolygu ffioedd y gwasanaeth yn flynyddol. Mae'r addasiadau i'r ffioedd yn adlewyrchu newidiadau yn y gwir gost i'r Cyngor o ddarparu'r gwasanaethau.

## 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda phobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

Cafodd ymgynghoriad ei gynnal yn ystod 2016 mewn perthynas ar newidiadau i'r polisi codi tâl a gafodd ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar 17/01/2017. Gan nad oes newid i'r polisi hwn yn cael ei gynnig, does dim ymgynghoriad wedi cael ei gynnal fel rhan o'r asesiad effaith cydraddoldeb.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol mae'n ofynnol i bob Prif Swyddog gynnal adolygiad o'r holl ffioedd a godir gan eu gwasanaeth yn unol â Pholisi Ffioedd a Phrisiau'r Cyngor. Dylai pob Prif Swyddog gyflwyno argymhellion i newid lefel ffioedd, neu argymell i beidio newid taliadau o'r fath yn unol â chwyddiant yn flynyddol.

## 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

**Deddf:**

Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn y canllawiau sydd wedi eu gosod yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor ymarfer eu disgresiwn i godi tâl am wasanaethau gofal. Pan mae awdurdodau lleol yn penderfynu codi tâl mae'n rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r rheoliadau a chod ymarfer a nodir yn y Ddeddf.

**Rheoliadau:**

Y rheoliadau mewn perthynas ag asesu ariannol a chodi tâl yw:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Ariannol) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau a Dyfarniadau Codi Ffi) (Cymru) 2015.

**Cod Ymarfer:**

Y cod ymarfer mewn perthynas ag asesiad ariannol a chodi tâl yw:

- Rhan 4 & 5 Cod Ymarfer (Asesiadau Ariannol a Chodi Tâl)

**Defnyddwyr Gwasanaeth:**

- Oddeutu 620 o ddefnyddwyr gwasanaethau preswyl a nyrsio gyda chanran uchel o'r rhain yn bobl hyn a phobl ag anableddau dysgu a salwch iechyd meddwl yn ganran is.
- Oddeutu 2,200 o ddefnyddwyr gwasanaethau dibreswyl. Pobl hyn a phobl anabl yw'r canran uchaf o'r defnyddwyr gwasanaeth dibreswyl.

**Ymgynghoriaeth:**

Does dim ymgynghoriaeth wedi cael ei gynnal am y rhesymau a amlinellir yn flaenorol.

## 8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

## 9) PERTHNASEDD AC EFFAITH

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Dim | Gan fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â Deddfwriaeth sydd yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio ei ddisgresiwn i godi ffioedd am wasanaethau gofal, nid yw'n achosi camwahaniaethu |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Dim | Dim yn berthnasol |
| **Meithrin perthnasau da** | Dim | Dim yn berthnasol |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma.<br><br>Bodlon darparu mewn ieithoedd gwahanol. |
| **Anabledd** | Negyddol | Mae'r ffioedd sydd dan ystyriaeth yn daladwy gan ddefnyddwyr gwasanaeth sydd gan anableddau. Fodd bynnag, yn unol â pholisi codi tâl y Cyngor mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth yr hawl i dderbyn asesiad o'i modd ariannol cyn talu. Mae hyn golygu bod e'u gallu i dalu yn cael ei asesu yn unol â'r polisi ac o ganlyniad does neb yn talu mwy na'r hyn y maent yn gallu ei fforddio. |
| **Rhyw** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred** | Dim | Dim yn berthnasol i'r nodwedd yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Dim effaith, bydd popeth ar gael yn ddwyieithog. |
| **Oedran** | Negyddol | Bydd y newidiadau yn cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth o bob oedran, ond mae'r canran uchaf o ddefnyddwyr yn bobol hyn. Fodd bynnag, yn unol â pholisi codi tâl y Cyngor mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth yr hawl i dderbyn asesiad o'i modd ariannol cyn talu. Mae hyn golygu bod e'u gallu i dalu yn cael ei asesu yn unol â'r polisi ac o ganlyniad does neb yn talu mwy na'r hyn y maent yn gallu ei fforddio. |

| | | |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Dim effaith. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim effaith |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br><br>Pobl anabl a phobl hyn yw mwyafrif y defnyddwyr gwasanaeth gofal ac felly rhain yw'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau a gynigir. Fodd bynnag, dylid cadarnhau bod gan bob defnyddiwr gwasanaeth yr hawl i dderbyn asesiad o'i modd ariannol cyn talu. Mae hyn golygu bod e'u gallu i dalu yn cael ei asesu yn unol â'r polisi codi tâl, ac o ganlyniad does neb yn talu mwy na'r hyn y maent yn gallu ei fforddio. |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Mae'r canllawiau a osodir gan y Llywodraeth sydd wedi eu mabwysiadu ym Mholisi Codi Tâl y Cyngor yn sicrhau bod modd ariannol pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei asesu cyn bod gofyn iddynt gyfrannu tuag at gost eu gofal. Mae hyn yn sicrhau bod y gyfundrefn codi tâl mor deg ag sydd bosib gan sicrhau nad yw yn cael effaith andwyol sylweddol ar unrhyw unigolyn neu grw p. Gallai'r Cyngor ddewis peidio â defnyddio'r disgresiwn i godi/cynyddu cyfraniadau ond, byddai hynny yn debygol o arwain at doriadau mewn rhai gwasanaethau gofal llinell flaen. Gallai hynny gael effaith ar allu'r Cyngor i ddarparu rhai gwasanaethau ac felly bod yn fwy andwyol i rai defnyddiwr gwasanaeth. |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Mae'r penderfyniad i gynyddu ffioedd wedi ei seilio ar gynnydd yn wir gost y ddarpariaeth. Nid oes angen ail ystyried y penderfyniad. |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er bod yr asesiad uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Bydd asesiad effaith pellach yn cael ei gynnal os bydd cynigion i addasu'r polisi yn y dyfodol. |

## 12) PENDERFYNU

| |
|---|
| Addasu'r ffioedd am wasanaethau gofal preswyl a dibreswyl yn unol â thaflen penderfyniad yr Aelod Cabinet. |